**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | D G Sullivan | W G Thomas |
| M B Lewis | | |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P A Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| N Jellema | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| D King | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Arsylwyr**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Lockyer | Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol |
| I Guy | Aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Carolyn Isaac | Lawyer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice
Ymgynghorwyr: S Jasinski

---

### 31 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac rwy'n derbyn pensiwn a weinyddir gan gyn-Gyngor Dyfed - personol.

Y Cynghorydd W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Arsylwyr:**

Y Cynghorydd A R Lockyer, Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol – yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol. Mae fy ngwraig a'm mab hefyd yn aelodau o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

I Guy, Aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

## 32 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

## 33 Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022. (Llafar)

Rhoddodd Daniel King, Swyddfa Archwilio Cymru, ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor mewn perthynas â Chynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022.

Ymddiheurodd am beidio â darparu adroddiad ysgrifenedig, gan ychwanegu y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2022 a dywedodd

fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi Gillian Gillet yn ddiweddar fel Rheolwr Archwilio, a oedd wedi arwain at yr oedi.

Tynnwyd sylw at weithdrefnau cynllunio diwedd blwyddyn, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ymddangos bod y disgwyliadau'n debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 34 Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio darparu fframwaith gweithredol ar gyfer rhaglen waith y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2022/23.

Nodwyd bod y Gronfa Bensiwn, yn unol ag arfer gorau, yn llunio cynllun busnes, cofrestr risg, cyllideb a dyraniad asedau i lywio'i rhaglen waith ar gyfer y cyfnod o 12 mis sydd i ddod. Atodwyd y cynllun busnes, y gyllideb, y gofrestr risg a'r dyraniad asedau ar gyfer 2022/23 yn Atodiadau 1, 2, 3 a 4.

Gofynnwyd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn gymeradwyo'r cynllun busnes, y gyllideb, y gofrestr risg a'r dyraniad asedau (gan nodi'r amrywiad rhwng dyraniadau gwirioneddol a tharged o ganlyniad i symudiadau yn y farchnad, sy'n cael sylw trwy ail-ddyrannu'n barhaus i'r portffolio cynhyrchu asedau go iawn) ar gyfer y flwyddyn 2022/23 gan nodi'r amserlen a'r cyfrifoldeb am bwyntiau gweithredu allweddol drwy gydol y flwyddyn. Roedd y ddogfen yn ddogfen ddynamig a byddai'n cael ei gwella a'i diwygio drwy gydol y flwyddyn yn ôl yr angen.

Nododd y Cadeirydd a'r Pwyllgor eu bod yn falch o gyflawniadau'r Gronfa Bensiwn, yn enwedig y ffaith ei bod wedi'i hariannu'n llawn, gyda'i phrisiad uchaf erioed a map ffordd allan o sero net. Diolchwyd i swyddogion yn unol â hynny am eu hymdrechion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a nodi’r canlynol: -

1) Cynllun Busnes Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23;
2) Cofrestr Risg 2022/23;
3) Dyraniad Asedau (targed gwirioneddol);
4) Cyllideb 2022/23.

## 35 Hyfforddiant Ymddiriedolwyr.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio penderfynu ar raglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Bwrdd Pensiwn Lleol a swyddogion y Gronfa Bensiwn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r asesiad a'r cynllun hyfforddiant amlinellol yn 3.7, 3.8 a 3.9 yr adroddiad ac y dylai cyfleoedd pellach a nodir yn ystod y flwyddyn gael eu dirprwyo i'r Dirprwy Swyddog Adran 151 i'w cymeradwyo.

## 36 Toriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Darparodd Atodiad A fanylion am y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Tachwedd 2021. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

**(Bu'r Cadeirydd P Downing (Is-Gadeirydd) yn llywyddu)**

## 37 Rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn ceisio cydnabod ehangder a chwmpas cynyddol rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a chyflwyno argymhellion cymesur ar gyfer cydnabyddiaeth briodol yn unol â'r cyfrifoldeb hwnnw, ac i fod yn gyson â'i chronfeydd partner ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru a rolau Cadeiryddion pwyllgorau eraill o fewn y cyngor.

Cydnabu'r Pwyllgor y llwyth gwaith a'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Gadeirydd y Pwyllgor. Ychwanegwyd bod y rôl wedi dod yn fwy cymhleth a heriol a'r Gronfa Bensiwn oedd yr unig un yng Nghymru nad oedd yn talu'r Cadeirydd.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo'r argymhellion canlynol a'u hanfon at y cyngor i'w cymeradwyo: -

1) Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cydnabod bod rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cynyddu o ran ei chwmpas ac ehangder;

2) Bydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cymeradwyo'r argymhelliad i dalu, yn ôl ei ddisgresiwn, swm sy'n hafal â chyflog aelod uwch Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) ar gyfer Cadeirydd Pwyllgor i Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a thelir y symiau ychwanegol (yn ychwanegol at gyflog sylfaenol) gan y Gronfa Bensiwn fel yr amlinellir yn 6.1 o'r adroddiad hwn.

(Nodwyd – ymataliad y Cynghorydd W G Thomas)

**(Bu'r Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) yn llywyddu)**

## 38 Gwahardd Y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 39 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynodd Andre Ranchin a Nick Jellema, Ymgynghorwyr Buddsoddi Hymans Robertson, Adroddiad Monitro Buddsoddi Chwarter 4 2021.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol. Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi am ei adroddiad.

**(Gadawodd cynrychiolwyr Hymans Robertson y cyfarfod)**

## 40 Contract Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i estyn Contract yr Ymgynghorydd Buddsoddi (yn unol â fframwaith CPLlL Norfolk ar gyfer Ymgynghorwyr Buddsoddi).

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo estyn contract yr Ymgynghorydd Buddsoddi am 2 flynedd (tan fis Mawrth 2024).

## 41 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Canmolodd y Cadeirydd ymateb cyflym y Swyddogion a ddarparwyd mewn perthynas â'r materion sy'n ymwneud ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Condemniodd weithredoedd Rwsia ac ychwanegodd fod PPC wedi ceisio dadfuddsoddi'n llwyr yn Rwsia. Ychwanegodd fod y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau drwy PPC.

## 42 Crynodeb Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

## 43 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:

Gwnaed cyflwyniad gan Aidan Quinn, Taran Paik, Gerard Fitzpatrick, Yacine Zerizef a William Pearce o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

**44 Diolch.**

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor a drefnwyd, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu gwaith a'u hymrwymiad drwy gydol tymor y cyngor.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cadeirydd am ei waith a'i ymrwymiad, yn enwedig fel Cadeirydd Partneriaeth Pensiwn Cymru a chan nad oedd yn ceisio cael ei ailethol yn Gynghorydd, dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 1.25 pm

**Cadeirydd**